# Datganiadau Alldro Adran 52 (S52O), 2024-25

## Rhagymadrodd

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau ar sut i lenwi datganiad alldro adran 52, ac yn enwedig o ran y symiau sydd i'w nodi ym mhob un o golofnau'r ffurflen (gan gynnwys sut i drin taliadau trothwy i athrawon) a chysylltiadau â ffurflen RO1 2024-25.

Mae'n rhaid i ddatganiad alldro adran 52 fod yn gyson â ffurflen RO1 2024-25. Er mwyn i'r datganiad fod yn gyson, mae'n bwysig llenwi'r ffurflen RO ar sail non-FRS17, ac felly bydd rhaid i adran 52 gael ei chwblhau ar sail non-FRS17 hefyd.

Pump elfen sydd i'r ffurflen, sef crynodeb fesul ysgol ym mhob sector, hy ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig. Mae pob elfen yn rhannu'n 10 colofn:

Mae enw'r ysgol a rhif yr ysgol yn y ddwy golofn gyntaf. Mae'r rhain wedi'u llenwi ar eich ffurflen yn barod. Edrychwch ar y colofnau hyn cyn llenwi'r ffurflen a rhowch wybod i Frank Kelly (03000 25 5673) os oes unrhyw newidiadau, neu e-bost: YCLLL.trosglwyddo@llyw.cymru.

1. Mae colofn a yn cynnwys y gyllideb wreiddiol a ddyrannwyd i'r ysgol, fel y gwelwyd yn rhan 1 o ddatganiad cyllideb 2024-25.
2. Dylai unrhyw newidiadau yn y gyfran o'r gyllideb a wnaed yn ystod y flwyddyn yn sgil ailbenderfyniadau gael eu cofnodi yng ngholofn b. Gall y rhain godi, er enghraifft, yn sgil dyrannu cronfeydd argyfwng i ysgolion penodol. Peidiwch â thrin grantiau penodol y llywodraeth sy'n pasio drwy gyfrifon yr ysgol fel ailbenderfyniad.
3. Dylai unrhyw newidiadau eraill yng nghyllid yr ysgolion unigol drwy'r AALl, er enghraifft cyllid argyfwng sydd wedi'i wario'n ganolog ar ran yr ysgol, taliadau i'r ysgolion i ariannu taliadau trothwy i athrawon neu grantiau penodol sydd wedi pasio drwy gyfrifon yr ysgol, gael eu cofnodi yng ngholofn c (a hefyd yng ngholofn h).
4. Mae colofn d yn cael ei chyfrifo fel colofn a + colofn b + colofn c. Fe ddylai fod yn hafal i golofn 5, RO1, llai unrhyw beth sydd wedi'i dynnu o'r cronfeydd wrth gefn, ar gyfer pob sector fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meithrin: | llinell 210 RO1 + llinell 209, colofn 6.2 |
| Cynradd: | llinell 11 RO1 + llinell 10, colofn 6.2 |
| Canol: | llinell 260 RO1 + llinell 259, colofn 6.2 |
| Uwchradd: | llinell 22 RO1 + llinell 21, colofn 6.2 |
| Arbennig: | llinell 33 RO1 + llinell 32, colofn 6.2 |

4.1 Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael i'r ysgolion yw colofn d. Roedd arian a roddwyd yn y cronfeydd wrth gefn (colofn 1.2 llinellau 209, 10, 259, 21 a 32 RO1) ar gael i'r ysgol ac felly fe ddylai gael ei gynnwys yng ngholofn d o ddatganiad alldro S52O. Nid yw symiau sydd wedi'u

tynnu o'r cronfeydd wrth gefn (colofn 6.2 llinellau 209, 10, 259, 21 a 32 RO1) yn cyfrif fel incwm y flwyddyn gyfredol ar yr S52O ac felly ni ddylir eu cynnwys yng ngholofn c na cholofn d.

4.2 Mae nifer o'r awdurdodau wedi gofyn a ddylai colofn d ar y datganiad adran 52O fod yn 'gros' ynteu'n 'net'. Er mwyn i golofn d gyd-fynd â cholofn 5 ar y ffurflen RO1, mae'n rhaid i bob ffigwr yng ngholofn d fod yn gros. Mae hynny'n golygu bod rhaid i bob ffigwr yng ngholofn c fod yn gros hefyd a chynnwys holl incwm yr ysgol heblaw symiau sydd wedi'u tynnu o'r cronfeydd wrth gefn (gweler nodyn 4.1).

5. Yng ngholofn h dylid rhoi incwm i'r ysgolion sydd wedi pasio drwy gyfrifon yr awdurdod lleol (gweler nodyn 4.1).

5.1 Dylai grantiau sydd wedi pasio yn uniongyrchol drwy gyfrifon yr ysgol gael eu trin fel incwm i'r ysgol. Hefyd, dylai grantiau sydd wedi'u gwario ar ran yr ysgol gan yr AALl gael eu trin fel incwm.

5.2 Gan hynny, dylai cyfanswm colofn h fod yn hafal i'r RO1, ar gyfer pob sector, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meithrin: | llinell 210, colofn 11 + (llinell 210, colofn 8 - llinell 209, colofn 6.2) |
| Cynradd: | llinell 11, colofn 11 + (llinell 11, colofn 8 - llinell 10, colofn 6.2) |
| Canol: | llinell 260, colofn 11 + (llinell 260, colofn 8 - llinell 259, colofn 6.2) |
| Uwchradd: | llinell 22, colofn 11 + (llinell 22, colofn 8 - llinell 21, colofn 6.2) |
| Arbennig: | llinell 33, colofn 11 + (llinell 33, colofn 8 - llinell 32, colofn 6.2) |

5.3 Ni ddylai gwybodaeth am incwm ychwanegol sydd wedi'i godi gan gymdeithasau rhieni ac athrawon (PTAs) ac sydd heb basio drwy gyfrifon yr awdurdodau lleol gael ei chofnodi. Er enghraifft, pe bai'r PTA wedi rhoi bws mini i'r ysgol, ni ddylai'r gwariant a'r incwm sy'n gysylltiedig â phrynu'r bws mini gan y PTA gael ei gynnwys ar y ffurflen.

## Enghraifft 1 (tynnu symiau o’r cronfeydd wrth gefn)

**RO1**

| | | Colofn | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **1.1** | **1.2** | **2** | **3** | **5** | **6.1** | **6.2** | **7** | **8** | **10** | **11** | **10+11** |
| **Rhes** | **1-9** | 21,384 | 8,617 | 496 | | 30,497 | -67 | -452 | | -519 | 29,978 | -1,540 | 28,438 |
| | **10** | | 0 | | | 0 | | -449 | | -449 | -449 | | -449 |
| | **11** | 21,384 | 8,617 | 496 | 0 | 30,497 | -67 | -901 | 0 | -968 | 29,529 | -1,540 | 27,989 |

Adran 52 Cynradd

| a | b | c | d | e | f | g | h | d-h |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26,771 | -29 | 3,306 | 30,048 | 1,344 | 895 | 30,497 | 2,059 | 27,989 |

Wrth dynnu swm o’r cronfeydd wrth gefn - mae colofn d, yr S52O, yn hafal i golofn 5, RO1, llai colofn 6.2 (llinell 10 ar gyfer ysgolion cynradd) yr RO1.
Mae colofn h yn hafal i golofn 11 plws colofn 8 llai colofn 6.2 (llinell 10 ar gyfer ysgolion cynradd).
Mae’n werth nodi bod colofn 10 plws colofn 11 ar yr RO1 (gwariant refeniw net) yn hafal i golofn d llai colofn h (Gwariant net) ar yr Adran 52.

## Enghraifft 2 (rhoi symiau i mewn i’r cronfeydd wrth gefn)

**RO1**

| | | Colofn | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **1.1** | **1.2** | **2** | **3** | **5** | **6.1** | **6.2** | **7** | **8** | **10** | **11** | **10+11** |
| **Rhes** | **12-20** | 23,213 | 10,232 | 139 | | 33,584 | -1,880 | -577 | | -2,457 | 31,127 | -5,359 | 25,768 |
| | **21** | | 189 | | | 189 | | 0 | | 0 | 189 | | 189 |
| | **22** | 23,213 | 10,421 | 139 | 0 | 33,773 | -1,880 | -577 | 0 | -2,457 | 31,316 | -5,359 | 25,957 |

Adran 52 Cynradd

| a | b | c | d | e | f | g | h | d-h |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28,720 | 40 | 5,013 | 33,773 | 635 | 824 | 33,584 | 7,816 | 25,957 |

Wrth roi symiau i mewn i’r cronfeydd wrth gefn - mae colofn d, yr S52, yn hafal i golofn 5, yr RO1.